Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad ar Reoleiddio Ebrill 2018

**Mae angen eich help arnom i sicrhau y gall yr holl staff a rhanddeiliaid perthnasol gael gafael ar y diweddariadau hyn. Dosbarthwch hwn i'ch rhwydweithiau**

**Cartref newydd i'r Tîm Rheoleiddio**

- Ers 9 Ebrill, mae'r Tîm Rheoleiddio Tai wedi dychwelyd i is-adran Polisi Tai Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu mai ein harweinydd newydd yw Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr y Polisi Tai.
- Mae Emma yn edrych ymlaen at ddod i adnabod y sector cymdeithasau tai yng Nghymru yn well ac mae wedi dosbarthu ei llythyr cyflwyno ei hun.
- Rydym wedi atodi ein siart strwythur newydd er gwybodaeth.
-

**Staff y Tîm Rheoleiddio**

- Yn ystod mis Mawrth, gwnaethom ffarwelio â Sarah Laing Gibbens, Pennaeth Gweithrediadau Rheoleiddio. Mae Sarah wedi gweithio gyda'r Tîm Rheoleiddio ers y dechrau yn 2010. Rydym yn gweld ei heisiau yn barod a dymunwn yn dda iddi yn ei rôl newydd fel Pennaeth Perfformiad Masnachol yn yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd.
- Rydym wrthi'n recriwtio unigolyn i swydd y Pennaeth Gweithrediadau Rheoleiddio. Yn y cyfamser, mae Carol Kay yn cyflawni'r rôl, gyda chymorth gweddill y tîm

**Cyswllt a dyfarniadau rheoleiddiol**

- Mae'r Dyfarniadau Rheoleiddiol ar gyfer yr holl landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwy bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Maent ar gael yma ar hyn o bryd, tra bod ein gwefan yn cael ei hailwampio.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-assessments/?lang=cy

- Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Tîm Rheoleiddio yn cyhoeddi 40 o Ddyfarniadau Rheoleiddiol a fydd yn cynnwys dyfarniadau cyntaf nifer o LCCau llai.

**Bod yn agored ac yn atebol**

- Mae'r Tîm Rheoleiddio wrthi'n gweithio ar brosiect data dau gam, sy'n gysylltiedig ar argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â bod yn agored ac yn atebol.
- Cam 1 - cyhoeddi ystod gyfyngedig o ddata sydd eisoes ar gael - mae'r cam hwn wedi'i ohirio nes bod gwybodaeth Cyfrifon Cyffredinol 2016/17 wedi'i chwblhau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r data ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Ebrill.
- Cam 2 - cydweithio'n agos â'r sector a rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig tenantiaid, i nodi'r ystod fwyaf priodol o ddata i'w cyhoeddi a'r ffordd orau o sicrhau y caiff y sector a thenantiaid eu helpu i wneud defnydd effeithiol o'r data. Rydym yn gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymgymryd â'r gwaith hwn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2018.

**Fframwaith Rheoleiddiol**

- Mae adolygiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o'r Fframwaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau. Cafodd y canfyddiadau eu cyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio ar ddechrau mis Mawrth a'u hystyried gan y Bwrdd Rheoleiddiol ar ddiwedd mis Mawrth.
- Canfu'r Adolygiad fod y mwyafrif helaeth o randdeiliaid yn cefnogi'r Fframwaith a'r modd y caiff ei roi ar waith ond rydym yn ystyried sut y gellir gwneud rhai o'r mân newidiadau a awgrymwyd. Fel rhan o'n hymateb i'r adolygiad o'r Fframwaith, rydym wrthi'n adolygu ein dull gweithredu a'r adnoddau sydd ar gael i'r tîm er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd risg allweddol.
- Mae'r papur sy'n rhoi trosolwg o risgiau'r sector a disgwyliadau rheoleiddio wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon Cynhwysfawr a gyhoeddir maes o law.
- Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio mwy ar drefniadau sefydliadau i ddarparu sicrwydd Bwrdd priodol. Gallwch ddisgwyl y bydd hyn, a'r disgwyliadau rheoleiddio eraill yn y cyhoeddiad arfaethedig, yn rhan allweddol o'r trafodaethau a gewch eleni â'ch Rheolwr Rheoleiddio.

**Clywed Llais Tenantiaid**

- Rydym yn parhau i weithio gyda TPAS Cymru i ddeall barn a blaenoriaethau tenantiaid. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd ond mae nifer ac amrywiaeth y tenantiaid sy'n rhoi eu barn yn tyfu'n raddol.
- Adolygodd y Bwrdd Rheoleiddiol y dull gweithredu presennol yn ei gyfarfod ar ddiwedd mis Mawrth. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed ac mae'n hapus i gadarnhau y bydd y dull gweithredu hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf, nes y cyhoeddir canfyddiadau adolygiad Bwrdd Rheoleiddio Cymru o drefniadau i osod tenantiaid wrth wraidd gweithgarwch rheoleiddio.

**Deddfwriaeth Diwygio Rheoleiddio**

- Cyflwynwyd Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) ar 16 Hydref. Mae'r Bil ar y trywydd cywir i gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf. Mae'r Bil yng Nghyfnod 3, a disgwylir iddo gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ebrill 2018.
- Ceir rhagor o wybodaeth yn http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=19962

**Adolygiadau'r Bwrdd Rheoleiddiol**

Gwerth am Arian

- Adolygodd y Bwrdd Rheoleiddiol gynnydd o ran Gwerth am Arian yn ei gyfarfod ar ddiwedd mis Mawrth. Nodwyd rhywfaint o gynnydd ond, ar y cyfan, mae angen datblygu dulliau gweithredu o ran Gwerth am Arian ymhellach.
- Mae gwaith dadansoddi mwy diweddar o Werth am Arian yn mynd rhagddo gan ddefnyddio ffigurau o'r Cyfrifon Cynhwysfawr diweddaraf. Gallwch ddisgwyl y bydd eich Rheolwr Rheoleiddio yn trafod y ffigurau diweddaraf gyda chi fel rhan o waith sicrwydd rheoleiddiol.
- Bydd y Bwrdd Rheoleiddiol yn ystyried datblygu ein dull gweithredu o ran Gwerth am Arian ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

Adroddiad ar Gynnydd Trefniadau Llywodraethu

- Cafodd Adroddiad yr Adolygiad o Gynnydd - *'Y Pethau Iawn'*, ei lansio yng Nghynhadledd Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru ar ddechrau mis Mawrth.
- http://gov.wales/docs/desh/publications/180307-housing-association-governance-progress-review-cy.pdf
- http://gov.wales/docs/desh/publications/180307-housing-association-governance-progress-review-supplement-cy.pdf
- Yn ogystal â rhoi adroddiad ar gynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adolygiad o drefniadau llywodraethu a gynhaliwyd yn 2013, mae '*Y Pethau Iawn*' yn cynnwys negeseuon pwysig i Fyrddau am yr hyn y mae angen iddynt ei ystyried er mwyn sicrhau

bod eu trefniadau llywodraethu yn addas i'r dyfodol; gweledigaeth ar gyfer trefniadau llywodraethu da a chyfleoedd i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu.

- Er mwyn sicrhau bod canfyddiadau'r Adolygiad yn cael eu rhoi ar waith a llywio gwelliannau, bydd y Bwrdd Rheoleiddiol a Cartrefi Cymunedol Cymru yn sefydlu grŵp arwain agweddau.
- Rydym yn disgwyl i gymdeithasau tai unigol ystyried canfyddiadau'r Adolygiad fel rhan o'u gweithgarwch eu hunain i wella trefniadau llywodraethu a gallwch ddisgwyl y bydd eich Rheolwr Rheoleiddio yn trafod eich dull gweithredu fel rhan o waith sicrwydd rheoleiddiol.

Adolygiad 2018 – Tenantiaid wrth Wraidd Gweithgarwch Rheoleiddio

- Bydd adolygiad y Bwrdd Rheoleiddiol eleni yn edrych ar reoleiddio o safbwynt tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau.
- Mae gwaith ar fin dechrau i bennu cwmpas yr adolygiad hwn. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn gofyn am farn pob rhan o'r sector a rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi'r prif faterion.

**Y Wefan Reoleiddio**


- Rydym bron â gorffen ein gwaith i wella'r ystod o wybodaeth a geir yn yr adran rheoleiddio tai ar wefan Llywodraeth Cymru a'i gwneud hi'n haws i ddod o hyd i'r wybodaeth.
- Gallwch ddisgwyl gweld rhai newidiadau dros yr wythnosau nesaf.

**chwythwyr chwiban**

- Gweler nodyn ar weithdrefn chwythu'r chwiban. Mae'n nodi sut y bydd unrhyw bryderon a wnaed i'r rheoleiddiwr yn cael ei edrych i mewn iddo, i'r ymatebion a all landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ei ddisgwyl a disgwyliadau rheoleiddio am eich polisïau chwythu'r chwiban.

**Adborth**

- Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein rhanddeiliaid allweddol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am reoleiddio. Felly, os oes gennych unrhyw adborth, sylwadau neu awgrymiadau, byddem yn falch iawn o glywed gennych drwy housingregulation@gov.wales


Emma Williams
Pennaeth Adran Polisi Tai
Carol Kay
Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio
Senior Regulation Strategy Manager
Ian Walters
Lisa Amos
Uwch ddadansoddwr ariannol
Allister Parkinson
Uwch ddadansoddwr ariannol
Emma Williams
Pennaeth Adran Polisi Tai
Head of Regulation Operations Branch
VACANT
Senior Relationship Manager
Alison Johns
Senior Regulation Manager
Maria Round
Regulation Manager
Simon Fowler
Regulation Manager
Ian Hibble
Regulation Manager
Elinor Savage
Regulation Manager
Pam Lucas
Cydlynydd Rheoleiddio
Catrin Williams